WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2019 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1677A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Sara Utley, Steve Stark, Gareth Lucey, Derwyn Owen a Dave Thomas

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 5

Negeseuon allweddol 6

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol 8

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol 2018-19 y Bwrdd Iechyd, ac nid oes unrhyw faterion o bwys i'w dwyn i sylw'r swyddogion na'r Pwyllgor Archwilio 8

Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd 9

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 10

Mae gan y Bwrdd Iechyd heriau sylweddol i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys rhoi model gweithredu newydd ar waith, sicrhau bod pwyllgorau diwygiedig y Bwrdd yn craffu'n ddigonol ar fusnes allweddol a mynd i'r afael â bylchau sylweddol yn ei ddull o reoli risgiau ac ansawdd llywodraethu. 11

Mae lle i gryfhau'r broses o adrodd yn ffurfiol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a gallai'r capasiti rheolwyr newid cyfyngedig effeithio ar ddatblygiad amserol y Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig. 12

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac mae'r trefniadau rheoli yn gadarn ar y cyfan, ond mae trosglwyddo Pen-y-bont ar Ogwr wedi creu peth ansicrwydd 12

Mae heriau gweithlu yn parhau, ac yn cyflwyno risgiau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd 13

Mae gwaith y Bwrdd Iechyd â phartneriaid i ddatblygu model ar gyfer proffilio bregusrwydd â phwyslais cryf ar y pum ffordd o weithio, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gallent gynnwys dinasyddion wrth ddatblygu'r model ymhellach 13

Er bod cywirdeb codio clinigol wedi gwella, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei darged cyflawnrwydd ac mae ganddo ôl-groniad sylweddol 14

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 15

Atodiad 2 – ffi archwilio 16

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 17

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg [1] (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2019. Gwneuthum y gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd, yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwyf wedi nodi fy nghanfyddiadau o dan Negeseuon allweddol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Rwyf wedi cyhoeddi sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, ac mae rhestr ohonynt wedi ei chynnwys yn Atodiad 1.

4 Cyflwyna Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am gostau gwirioneddol o wneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2019.

5 Noda Atodiad 3 y risgiau archwilio ariannol a amlygir yng Nghynllun Archwilio 2019 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno bod yr adroddiad hwn yn ffeithiol gywir. Fe'i cyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Ionawr 2020. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

[1] Ffurfiwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 1 Ebrill 2019 yn sgil newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwaith cyfrifon ar gyfer 2018-19 a nodir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf blaenorol.

7 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio a gynhaliwyd gan fy nhîm yn ystod y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio'r Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon. Yn sgil hyn, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynghylch y gwaith paratoi, ac nid oes unrhyw faterion arwyddocaol i'w dwyn i sylw'r swyddogion na'r pwyllgor archwilio.

9 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa ariannol wedi'i mantoli ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynghylch rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yn y cyfrifon ar gyfer 2018-19.

10 Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni sefyllfa ariannol wedi'i mantoli a bod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ac nad oedd unrhyw faterion eraill a oedd yn cyfiawnhau sylw, ni roddwyd unrhyw adroddiad o bwys ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

11 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa heriol iawn. Mae'n rhaid iddo fynd i'r afael ar frys â gwendidau sylweddol yn ansawdd y trefniadau llywodraethu a rheoli risgiau. Mae'n rhaid iddo fynd i'r afael hefyd â heriau parhaus yn gysylltiedig â'r gweithlu a mynd i'r afael â phroblemau dyrys yn ei ddiwylliant sefydliadol. Mae cyflawni newid i ffin Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn llwyddiant sylweddol, ond mae'r trosglwyddiad wedi ychwanegu at gymhlethdod blaenoriaethau newid sefydliadol y Bwrdd Iechyd newydd. Mae arweinwyr newydd mewn swyddi gweithredol allweddol, ynghyd â chydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r heriau cyfredol, a hanes da o reolaeth ariannol a chynllunio strategol, yn rhoi rhywfaint o optimistiaeth o ran y gallu i gyflawni'r gwelliannau gofynnol.
- Canfu fy archwiliad o ddull y sefydliad o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fod gan waith y Bwrdd Iechyd gyda phartneriaid o ddatblygu model proffilio bregusrwydd bwyslais cryf ar y pum ffordd o weithio, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gallai gynnwys dinasyddion wrth ddatblygu'r model ymhellach.

- Er bod cywirdeb codio clinigol wedi gwella, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei darged cyflawnrwydd ac mae ôl-groniad sylweddol o waith codio.

12 Rhoddir rhagor o ystyriaeth i'r canfyddiadau hyn yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

13 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2018-19. Yn y datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian parod. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o ran dangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

14 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol 2018-19 y Bwrdd Iechyd, ac nid oes unrhyw faterion o bwys i'w dwyn i sylw'r swyddogion na'r Pwyllgor Archwilio

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

15 Cynhyrchwyd y datganiadau ariannol drafft i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno, sef 26 Ebrill 2019, ac unwaith eto, roeddent o safon dda. Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau i sicrhau ansawdd y datganiadau ariannol a cheir gwaith craffu o lefel uchel gan y Pwyllgor Archwilio. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

16 Mae'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon a rhannau perthnasol yr Adroddiad Blynyddol, yn parhau i fod yn dasg anodd, a hoffem ganmol y tîm cyllid a'r Bwrdd Iechyd ehangach am amseriad ac ansawdd eu gwaith. Mae'r berthynas waith adeiladol gydag Ysgrifennydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r holl dîm cyllid wedi parhau eleni, a diolchwn iddynt eto am hynny.

17 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny yr ystyriais eu bod yn berthnasol i'r archwiliad i'm helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiad sylweddol yn y cyfrifon. Ni ystyriais nhw at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd y broses o weithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

18 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Adroddwyd y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2019. Crynhoa Arddangosyn 1 faterion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ac yn rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
| --- | --- |
| Camddatganiadau na chywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau na chywirwyd |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Nodwyd nifer o gywiriadau yn ystod yr archwiliad, fel y’u gwelir yn Atodiad 3 o’m Hadroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol. Roedd yr unig gywiriadau perthnasol yn ymwneud â'r cofnodion cyfrifyddu ar gyfer cyllideb gyfun ac, unwaith eto, nid oeddent yn effeithio ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd. |
| Materion arwyddocaol eraill | Ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol eraill at sylw'r rheolwyr na'r Pwyllgor Archwilio. |

19 Cynhaliais, hefyd, adolygiad o ffurflen Gyfrifon y Llywodraeth gyfan. Penderfynais fod gwybodaeth gyfunol y parti arall yn y cytundeb yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2019 ac fe baratowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

20 Mae fy archwiliad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi ei gwblhau, ac fe ardystiais y cyfrifon hyn ar 2 Rhagfyr 2019. Yn yr ardystiad hwn, rwyf yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw sy’n rhoi achos i mi gredu:

- na chedwir y cofnodion cyfrifyddu fel sy’n ofynnol;
- nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny;
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol perthnasol;
- nad yw'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd gan elusennau

## Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd

Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa ariannol wedi’i mantoli ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynghylch rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yn y cyfrifon ar gyfer 2018-19.

21 Mae’n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n ei reoli. Mae’n rhaid bod ganddo’r pwerau i dderbyn yr incwm ac i ysgwyddo’r gwariant sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn cynnal

profion i sicrhau nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn nac i'w hysgwyddo.

22 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd danwariant o £16,000 o'i gymharu â'u Terfyn Adnoddau Refeniw yn 2018-19. Gan ychwanegu hyn at fân danwariant ychwanegol yn 2016-17 a 2017-18, fe gyflawnodd y Bwrdd Iechyd gyfanswm tanwariant o £57,000 o'i gymharu â'r Terfyn Adnoddau Refeniw cronnus dros gyfnod o dair blynedd. Felly, cydymffurfiodd y Bwrdd Iechyd â'i ddyletswydd statudol o fantoli'r costau dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd sefyllfa ariannol wedi'i mantoli a bod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ac nad oedd unrhyw faterion eraill a oedd yn cyfiawnhau sylw, ni roddwyd unrhyw adroddiad o bwys ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd.

23 Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad o bwys ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ynghyd â'm safbwyntiau pan rwyf yn dymuno tynnu sylw at faterion. Wrth i'r Bwrdd Iechyd fodloni ei ddyletswyddau ariannol: i sicrhau sefyllfa ariannol wedi'i mantoli (fel y nodir uchod) ac i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith; ac nid oedd unrhyw faterion eraill a oedd yn cyfiawnhau eu hadrodd, ni chyhoeddais adroddiad o bwys ynghylch y cyfrifon.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

24 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cynnal asesiad strwythuredig o sefyllfa ariannol a pherfformiad y Bwrdd Iechyd ynghyd â threfniadau ar gyfer cynllunio strategol, gwella a gweddnewid, llywodraethu cyffredinol, a rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu;
- cynnal cydadolygiad gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i'r trefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd; ac
- adolygu'r defnydd o adnoddau, ar godio clinigol yn benodol.

25 Hefyd, er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rwyf wedi ymgymryd â gwaith er mwyn adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd mewn cysylltiad â gweithredu'r Ddeddf.

26 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn isod.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd heriau sylweddol i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys rhoi model gweithredu newydd ar waith, sicrhau bod pwyllgorau diwygiedig y Bwrdd yn craffu'n ddigonol ar fusnes allweddol a mynd i'r afael â bylchau sylweddol yn ei ddull o reoli risgiau ac ansawdd llywodraethu.

27 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, y ffordd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes, a'r graddau y mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais hefyd ar yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad. Canfûm y canlynol.

28 Mae gan y Bwrdd heriau sylweddol i fynd i'r afael â nhw o ran cynnal ei fusnes yn effeithiol. Gwelwyd newidiadau sylweddol eleni, ac mae'r Bwrdd, fel y mae pethau ar hyn o bryd, yn gymharol newydd, a bu nifer o newidiadau yn ystod y flwyddyn. Mae angen i'r Bwrdd oruchwylio'r broses o weithredu strwythur sefydliadol newydd yn sgil trosglwyddo Pen-y-bont ar Ogwr. Hefyd, mae trefniadau is-bwyllgorau newydd wedi eu rhoi ar waith ac mae angen eu hymwreiddio os ydynt i gyflawni'r manteision a fwriadwyd. Mae fy ngwaith wedi nodi hefyd bod angen cadw golwg ar y trefniadau is-bwyllgorau newydd i sicrhau bod meysydd gwasanaeth pwysig megis iechyd meddwl yn cael eu goruchwylio a'u harchwilio'n ddigonol.

29 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau rheoli risgiau yn sylweddol a sicrhau bod digon o wybodaeth, sgiliau a chapasiti yn y swyddogaeth rheoli risgiau gan fod hwn yn faes gwan ar hyn o bryd. Yn hollbwysig, mae angen diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan fod hwn yn ddull allweddol o hoelio sylw'r Bwrdd ar risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol. Mae angen i'r Bwrdd adolygu ei drefniadau rheoli perfformiad yn sgil datblygu'r strwythur sefydliadol newydd, a datblygu ei adroddiadau perfformiad ymhellach er mwyn gwella eglurder.

30 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cydnabod bod gwendidau yn ei drefniadau tracio argymhellion archwilio, ac mae'n mynd i'r afael â nhw. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â gwella ei ddull tracio, yr eglurder a'r sicrwydd gofynnol i ddileu argymhellion oddi ar y traciwr, a chynnwys argymhellion gan ddarparwyr sicrwydd eraill/cyrff allanol megis AGIC a'r Uned Gyflawni. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fireinio a datblygu ei drefniadau ar gyfer tracio argymhellion.

31 Amlygodd fy nghydadolygiad o ansawdd llywodraethu gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wendidau sylweddol sy'n amharu ar allu'r Bwrdd Iechyd i nodi ac ymateb i broblemau a allai godi o ran ansawdd a diogelwch gofal cleifion. Canfu'r adolygiad fod angen gwelliannau sylweddol a brys ar y lefel gyfarwyddiaeth ac ar y lefel gorfforaethol fel eu bod naill ai'n cryfhau neu'n newid yn fwy sylfaenol y trefniadau, y strwythurau a'r swyddogaethau sefydliadol presennol. Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at yr angen dybryd i fynd i'r afael â nifer o faterion sy'n gysylltiedig â diwylliant y Bwrdd Iechyd.

## Mae lle i gryfhau'r broses o adrodd yn ffurfiol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a gallai'r capasiti rheoli newid cyfyngedig effeithio ar ddatblygiad amserol y Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig.

32 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig sut y mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn pennu cyfeiriad strategol y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni ei amcanion a sut y mae'n monitro cynnydd wrth gyflawni ei gynlluniau. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

33 Gallai prinder capasiti i reoli newid effeithio ar y gwaith blaenoriaeth uchel sydd ei angen i gwblhau'r Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig. Mae newidiadau i drefniadau adrodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi arwain at leihad mewn manylion ar gynnydd o'u cymharu â chyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae risg y gellir tynnu cymeradwyaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ôl os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd wrth gryfhau llywodraethu ac ansawdd.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac mae'r trefniadau rheoli yn gadarn ar y cyfan, ond mae trosglwyddo Pen-y-bont ar Ogwr wedi creu peth ansicrwydd

34 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol ac i greu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Asesais hefyd sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull ar gyfer cynllunio ariannol, rheolaethau ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

35 Bodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol i fantoli cyllideb 2018-19, ond mae trosglwyddo Pen-y-bont ar Ogwr wedi dargyfeirio amser y rheolwyr yn sylweddol a chreu ansicrwydd ynghylch gallu'r Bwrdd Iechyd i fantoli cyllideb 2019-20. Fodd bynnag, yn gadarnhaol, ceir trefniadau rheoli ariannol clir, ac mae adroddiadau ariannol wedi eu gwella eleni drwy ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol.

36 Ymarfer paru data dwyflynyddol sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Ym mis Ionawr 2019, derbyniodd y Bwrdd Iechyd ychydig dros 3,800 o barau data drwy gymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol gan flaenoriaethu parau data â risg uchel i'w hadolygu. Dengys cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol, ar 15 Hydref 2019, fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran adolygu ei barau Menter Twyll Genedlaethol, ar ôl cwblhau ei adolygiad o'r rhan fwyaf o'r parau â risg uchel, a gydag ymholiadau ar gyfer nifer fach o achosion yn parhau i

fynd rhagddynt.  Mae'n bwriadu ymgymryd â gwaith ychwanegol ar sampl arall. Mae angen cwblhau'r gwaith hwn.

## Mae heriau gweithlu yn parhau, ac yn cyflwyno risgiau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd

37 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i sicrhau bod eu gweithlu'n cael ei reoli'n dda a'i fod yn gynhyrchiol. Aseswyd trefniadau gennyf hefyd ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a datblygu, a'r camau i'w cymryd er mwyn ymgysylltu â staff gan wrando arnynt a mynd i'r afael ag anghenion lles. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu problemau o ran lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth a locwm, ac ar adeg ein gwaith, roedd y gwariant ar staff asiantaeth, fel canran o gyfanswm ei fil cyflogau, yr uchaf yng Nghymru. Mae'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn uwch na'r cyfartaledd, er gwaethaf ymyriadau gan y Bwrdd Iechyd. Hefyd, erys y lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn isel, a cheir cydymffurfiaeth wael â chynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol.

## Mae gwaith y Bwrdd Iechyd gyda phartneriaid i ddatblygu model proffilio bregusrwydd yn canolbwyntio'n gryf ar y pum ffordd o weithio, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gallent gynnwys dinasyddion wrth ddatblygu'r model ymhellach

39 Rwyf wedi cynnal adolygiad o'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ddatblygu ei drefniadau corfforaethol a'i brosesau busnes, ers fy ngwaith gwaelodlin yn 2017. Caiff amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd eu hadlewyrchu yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 3 blynedd, ac mae ei hunanasesiad ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2019 yn adlewyrchu rhagor o amcanion cadarnhaol. Er hynny, yn seiliedig ar hunanasesiad y Bwrdd Iechyd, ymddengys na wnaed llawer o gynnydd ers fy ngwaith gwreiddiol. Roedd fy adolygiad yn cynnwys archwilio cam a gymerwyd i fynd i'r afael ag un o amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd. Y cam a adolygwyd oedd dull y Bwrdd Iechyd o ddefnyddio'r pum ffordd o weithio wrth 'ddatblygu model proffilio bregusrwydd y blynyddoedd cynnar'.

40 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n gryf ar y pum ffordd o weithio ac wedi ystyried sut y gall y model proffilio bregusrwydd gyfrannu at yr amcanion cenedlaethol a helpu i gyflawni amcanion llesiant ei bartneriaid. Fodd bynnag, roedd angen goresgyn y rhwystrau yn sgil ffyrdd gwahanol o weithio y partneriaid, ac mae angen rhagor o ymgysylltu â dinasyddion drwy gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu clir.

.

## Er bod cywirdeb codio clinigol wedi gwella, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei darged cyflawnrwydd ac mae ôl-groniad sylweddol

41 Mae codio clinigol yn cynnwys trosi gwybodaeth glinigol ysgrifenedig (megis diagnosis a thriniaeth claf) i fformat cod. Mae data o ansawdd da wedi eu codio'n glinigol yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o reoli ysbytai a gwasanaethau. Gellir eu defnyddio i gefnogi'r broses o gynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau ac asesu effeithiolrwydd triniaethau. Canfu fy adolygiad, er bod cywirdeb y gwaith codio wedi gwella, nad oedd y targed cyflawnrwydd yn cael ei gyflawni a bod ôl-groniad codio sylweddol. Nid yw potensial llawn data wedi'i godio i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau wedi ei wireddu eto. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o'i gymharu â'n hargymhellion blaenorol, ond nid yw materion sy'n ymwneud â chofnodion meddygol, hyfforddiant ar gyfer codwyr nac ymgysylltiad â staff meddygol wedi eu datrys hyd yma.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a ddosbarthwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2019.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mai 2019 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2019 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2019 | Rhagfyr 2019 |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Tachwedd 2019 |
| Codio Clinigol | Rhagfyr 2019 |
| Adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Tachwedd 2019 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2019 | Chwefror 2019 |

### Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n mynd rhagddo o hyd

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Orthopedig | Chwefror 2020 |
| Gwaith dilynol ynghylch Ystafelloedd Llawdriniaeth | Mawrth 2020 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2019 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £**402,993** (heb gynnwys TAW). Mae'r gwaith a wnaed gennyf i gwblhau'r cydadolygiad gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ansawdd y llywodraethu wedi arwain at gynnydd o **£29,615** i'r ffi a ddisgrifir uchod.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2019 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2018-19. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg bod rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• cynnal profion priodoldeb yr wybodaeth yn y dyddlyfrau a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd; a<br>gwerthuso'r sail resymegol i unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Cwblhawyd y gwaith heb i faterion godi |
| Mae risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol cyntaf i fantoli'r cyfrifon o'i gymharu â'i derfynau refeniw ac adnoddau cyfalaf cyfanredol dros gyfnod o dair blynedd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ragweld y bydd y cyfrifon yn cael eu mantoli ar 31 Mawrth 2019. Yn ogystal â'r mân wargedion a gyflawnwyd yn 2016-17 a 2017-18, mae hyn yn nodi y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r ddyletswydd ariannol hon. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn cyflwyno adroddiad sylweddol ynghylch y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant.<br>Mae'r pwysau ariannol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon y rheolwyr fod â thuedd mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio eu profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth lunio adroddiadau.<br>Byddwn hefyd yn adolygu gyda'r rheolwyr perfformiad y Bwrdd Iechyd ac effaith yr holl ganfyddiadau archwilio o'u cymharu â'r terfynau refeniw a'r adnoddau cyfalaf ar gyfer y cyfnod o dair blynedd o 2016-17 i 2018-19. | Cwblhawyd y gwaith heb i faterion godi.<br><br>Ni nododd fy ngwaith archwilio amcangyfrifon a meysydd goddrychol eraill, megis darpariaethau, unrhyw addasiadau perthnasol i ganlyniad y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn.<br>Daeth fy staff i'r casgliad, gan ystyried gwallau dibwys, fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol o ran terfynau adnoddau ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19. |
| O 1 Ebrill 2019, bydd y cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd | Bydd fy nhîm archwilio yn cysylltu â staff cyllid er mwyn sicrhau y cedwir at y cynllun cynhyrchu cyfrifon ac y | Cwblhawyd y gwaith heb i faterion godi. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Er na fydd hyn yn peri unrhyw risgiau uniongyrchol o ran y trafodiadau sydd yn natganiadau ariannol 2018-19, bydd angen o hyd i'r datganiadau ariannol ddatgelu'r newid hwn o 1 Ebrill 2019.<br><br>Mae staff y Bwrdd Iechyd yn wynebu gwaith ychwanegol sylweddol oherwydd y newid hwn, sy’n cynyddu'r risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu ei ddatganiadau ariannol 2018-19 na’i bapurau gwaith i'w harchwilio mewn pryd. | bydd datgeliadau priodol yn cael eu gwneud. | Cadarnhaodd fy nhîm fod datgeliadau priodol yn cael eu gwneud yn y cyfrifon |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn trefniant cyllideb gyfun newydd gyda CBS Rhondda Cynon Taf a CBS Merthyr Tudful, a elwir yn ‘Gronfa Gyfun Llety Cartref Gofal Cwm Taf’. Mae cyfanswm gwerth y gyllideb gyfun hon ar gyfer 2018-19 dros £34 miliwn.<br><br>Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu'r trefniant hwn ac unrhyw gyfrifon memorandwm yn gywir yng nghyfrifon 2018-19. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r trafodiadau a'r datgeliadau ar gyfer y gyllideb gyfun newydd hon yng nghyfrifon 2018-19 ac yn sicrhau eu bod nhw’n sylweddol gywir. | Cwblhawyd y gwaith a gwnaethpwyd cywiriadau i'r cyfrifon fel yr adroddwyd yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol.<br><br>Nid oedd unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd. |
| Dechreuwyd defnyddio nifer o asedau'r Bwrdd Iechyd sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn weithredol yn ystod 2018-19. Bydd angen ailbrisio'r asedau hyn pan fyddant yn cael eu cwblhau gan y Prisiwr Dosbarth, gan gywiro unrhyw namau i’r gwerthoedd a nodir yn y llyfrau. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu ac yn profi sampl o’r prosiectau cyfalaf a gwblhawyd yn ystod 2018-19, er mwyn sicrhau eu bod wedi eu cyfrif yn unol â phrisiadau’r Prisiwr Dosbarth. | Cwblhawyd y gwaith heb i faterion godi. |
| Bu nifer o newidiadau i Aelodaeth Annibynnol y Bwrdd a'r Weithrediaeth yn ystod 2018-19. Bydd angen adlewyrchu'r rhain yn gywir yn adroddiad taliadau’r Bwrdd Iechyd. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu pob adroddiad taliadau a ddatgelir er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datgelu’n gywir ac yn briodol. | Cwblhawyd y gwaith a gwnaed cywiriadau i'r cyfrifon fel yr adroddwyd yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.<br><br>Nid oedd unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd. |
| Yn 2017-18, gwnaethom nodi sylwadau i’r rheolwyr yn ystod ein gwaith archwilio ynghylch sawl maes, gan gynnwys y dosbarthiad cyfredol/anghyfredol o ddarpariaethau esgeuluster clinigol a | Bydd fy nhîm archwilio yn edrych eto ar y materion a'r gwelliannau a nodwyd yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Cwblhawyd y gwaith heb i faterion godi. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| dyledwyr Cronfa Risg Cymru, a datgeliadau adroddiadau taliadau. | 2017-18 yn rhan o'n gwaith archwilio yn 2018-19. | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru